# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## BIIAB Award Personal Licence Holders Level 2



### Yn gryno

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn gofyn i unrhyw un sy'n awdurdodi gwerthiant masnachol alcohol mewn safleoedd trwyddedig gael Trwydded Bersonol. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cymhwyster cydnabyddedig ichi fel gallwch wneud cais am Drwydded Bersonol i werthu alcohol.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...gweithio mewn safleoedd trwyddedig lle gwerthir alcohol

...gwneud cais am Drwydded Bersonol i werthu alcohol

...gyrfa mewn rheoli bar neu dafarn neu fanwerthu alcohol

### Cynnwys y cwrs

Gosodir maes llafur y cwrs hwn gan y llywodraeth fel gallwch fodloni'r gofynion statudol a

chael cymhwyster cydnabyddedig i awdurdodi gwerthu alcohol yng Nghymru a Lloegr.

Byddwch yn edrych ar awdurdodau trwyddedu; cyfrifoldebau deiliad y drwydded bersonol; pwerau'r heddlu; hawl mynediad; gwaharddiadau penodol; cryfderau diodydd alcoholig; manwerthu alcohol yn gyfrifol; a diogelu plant rhag niwed.

Wedi ichi ei gwblhau, gallwch wneud cais am Drwydded Bersonol.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, ond fel rheol byddwch ynghlwm â gwerthu alcohol mewn tafarndai, bariau, gwestai, tai bwyta, siopau cyfleustra, siop ddiodydd drwyddedig, clybiau chwaraeon a chymdeithasol, clybiau nos, archfarchnadoedd ac ati.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cynhelir y cwrs dros 7 awr mewn 1 diwrnod (gydag arholiad o 40 munud) Caiff holl ddeunyddiau'r cwrs eu darparu a'r gost yw £150 yn cynnwys cinio.